**Blwyddyn 4**
Symud ymlaen
Rhaid i ni symud ymlaen,
Rhaid i ni fod yma'n gryf ac yn ddewr,
Amser i symud ymlaen.
Hwyl fawr i chi
Hwyl fawr i flwyddyn 3,
Amser sy'n hedfan yn gyflym yn awr,
Blwyddyn 4 sy'n galw i ni.

O-o-o.

Dyma ni'n eich gadael chi,
Ma'r dyddiau'n symud 'mlaen yn eu tro,
Dyma ni'n eich gadael chi,
Fe gadwn ni'r holl hwyl yn ein co',
Yn ein co', yn ein co',
Fe gadwn ni'r holl hwyl.

Diolch yn awr,
Hoffwn ni ddiolch yn awr,
I bob un athro am ein dysgu ni,
Chi yw ein harwyr ni.
Trwy pob un awr,
Buoch chi'n gwmni mawr,
Yma yn ein hysgol ni,
Cawsom gymaint o hwyl a sbri.

o-o-o

Dyma ni'n eich gadael chi,
Ma'r dyddiau'n symud 'mlaen yn eu tro,
Dyma ni'n eich gadael chi,
Fe gadwn ni'r holl hwyl yn ein co',
Yn ein co', yn ein co',
Fe gadwn ni'r holl hwyl.

Diolch i chi gyd, am ein dysgu ni,
Ry'n ni'n mynd i gofio yr holl hwyl a'r sbri,
Rhaid i ni fynd mla'n, gyda chalon lan,
Nawn ni byth anghofio chi bawb yma 'Nghwmbran.